



**ADRODDIAD GAN Y  
PWYLLGOR DEDDFAU**

**LEGISLATION COMMITTEE  
REPORT**

## **Gorchymyn Cynllunio Trafnidiaeth Rhanbarthol (Cymru) 2006**

Effaith y Gorchymyn hwn yw arfer pwer Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 113A o Ddeddf Trafnidiaeth 2000 i addasu adrannau 108 i 111 o'r Ddeddf honno. Yn benodol, mae'n caniatáu i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ganiatáu gwneud cynlluniau trafndiaeth lleol ar sail ranbarthol yn hytrach nag ar sail awdurdod unigol ac mae'n pennu'r dyddiad erbyn pryd y mae'n rhaid disodli cynlluniau trafndiaeth lleol sy'n bodloni'r meini prawf gofynnol.

### **Rheol Sefydlog 11.7**

Cafodd y pwyntiau isod eu nodi i fod yn destun adroddiad o dan Reol Sefydlog 11.7.

Mae adran 108 o Ddeddf Trafnidiaeth 2000 ymhlith y pwerau a enwir, ond nid yw'r adran honno yn cynnwys unrhyw bwerau i wneud gorchymynion. Mae'r pwerau eraill yn ddigonol ac felly byddai modd dileu'r cyfeiriad at adran 108. [Rheol Sefydlog 11.7(v)]

Cyn gwneud gorchymyn o dan adran 113A, mae'n ofynnol i'r Cynulliad ymgynghori ag awdurdodau trafndiaeth lleol ac unrhyw bobl eraill y mae'n tybio sy'n briodol. Dylid nodi yn y rhagymadrodd bod hyn wedi'i wneud. [Rheol Sefydlog 11.7(v)]

Mae testun Saesneg erthygl 1(2) yn datgan bod y gorchymyn yn gymwys "in relation to Wales", ond mae'r testun Cymraeg yn datgan ei fod yn gymwys "i Gymru" ["in Wales"]. Mae'r gwahaniaeth rhwng y ddau ymadrodd yn bwysig lle y gall gwasanaethau trafndiaeth gyhoeddus trawsffiniol fod

dan sylw. Yr ymadrodd yn y testun Saesneg sydd fwyaf priodol. [Rheol Sefydlog 11.7(vi)]

Yn y ddau baragraff yn erthygl 4, mae'r testun Saesneg yn dweud y caiff yr awdurdodau baratoi cynllun ["may prepare"], ond mae'r testun Cymraeg yn dweud bod yn rhaid iddynt wneud hynny ["rhaid ... lunio"]. [Rheol Sefydlog 11.7(vi)]

Mân wallau drafftio neu deipograffyddol yw'r rhain a gellir eu cywiro drwy Femorandwm Cywiriadau.

## **David Melding AC**

Cadeirydd y Pwyllgor Deddfau

**7 Tachwedd 2006**